



YSGOL GLANNAU GWAUN ADEILAD NEWYDD

Pensaer:

Mewnol – Cyngor Sir Penfro

Contractwr:

Dawnus Construction Cyfyngedig, Abertawe

Cost:

£6 miliwn

Ffynonellau Cyllid

Cyngor Sir Penfro

Llywodraeth Cymru

Disgrifiad o'r Cynllun:

Mae'r ysgol newydd yn disodli'r adeiladau ar y ddau safle ar wahân a bydd ynddi le i oddeutu 280 o ddisgyblion 3-11 oed. Adeilad deulawr ydyw sy'n cynnwys Uned AAA gynhwysfawr â 24 o leoedd, yn ogystal â 2 ystafell ddosbarth bwrpasol a thawelfeydd ac Ystafell Lleferydd ac laith ar gyfer 6 disgybl ychwanegol.

Mae'r ystafelloedd yn cynnwys Uned i'r Dosbarth Derbyn a'r Blynnydoedd Cynnar, Ystafell Dechnoleg a Llyfrgell. Y tu fas mae gan yr ysgol gyfleusterau fel cynefinfeydd ac ystafelloedd dosbarth yn yr awyr agored.

Ymysg yr arweddion diddorol mae strategaeth awyru naturiol, system cronni dŵr glaw, offer dala'r gwynt a BMS lawn (System Rheoli Adeilad) sy'n rheoli, o bell, y goleuadau a'r gwres yn yr adeilad, er mwyn sicrhau bod yr adeilad mor ynni-ffeithlon ag y bo modd.

Mae'r adeilad newydd yn dra chynaliadwy am fod gydag e uned gyfunedig ei hunan ar gyfer gwres a thrydan (CHP) sy'n darparu gwres yr adeilad ac oddeutu hanner ei drydan. Mae gydag e baneli ynni'r haul hefyd.

Y prosiect hwn fydd yr ysgol BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) gyntaf i'r Awdurdod ei chwpla ac mae e wedi cymryd camau bras tuag at sicrhau statws 'Rhagorl'.

Cwblhawvd: Mis Medi 2011



Mae'r adeilad yn cynnwys offer diogelwch, a dulliau o arbed ynni a defnyddio ynni'n effeithlon, fel:-

- System chwistrellu
- System awyru naturiol gyda ffenestri to ym mhob ystafell ddosbarth
- Unedau goleuo tra effeithlon
- Boeleri ynni-ffeithlon
- Uned CHP (Gwres a Phŵer Cyfunedig)
- Mae 20% o ddefnyddiau'r adeilad wedi cael eu hailgylchu
- System cronni dŵr glaw a thapiau dŵr a nwyddau glanweithiol sy'n ddŵr-ffeithlon
- Mae'r defnydd inswleiddio wedi'i wneud o boteli gwydr ailgylchedig